



Cymru
National Day Nurseries Association

Taflen ffeithiau

Ymarfer gwrth-hiliol
mewn lleoliadau
blynyddoedd cynnar yng
Nghymru: Gwybodaeth i
rieni a gofalwyr

Cwricwlwm i Gymru



Ymarfer gwrth-hiliol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yng Nghymru:

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar draws Cymru, mae gan bob plentyn hawl i deimlo'n ddiogel, gael eu gwerthfawrogi a chael eu cynnwys. Mae'r daflen hon yn nodi sut mae lleoliadau gofal plant a chwarae yn gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd i hybu ymarfer gwrth-hiliol a beth gall rieni a gofalwyr ei wneud i gefnogi hyn. I gynorthwyo plant dyfu mewn awyrgylch lle mae tegwch, caredigrwydd a pharch yn ganolog. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn greu awyrgylch croesawgar lle gall pob plentyn deimlo'n falch o'i hunaniaeth a dysgu sut i ddathlu'r gwahaniaethau. rhyngomhers.

Pam bod gwrth-hiliaeth yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar?

Mae syniadau a meddyliau plant yn cael eu hatgyfnerthu gan eu hamgylchedd ac maent yn cael eu dylanwadu gan beth maent yn ei weld a'i glywed pob dydd; mae hyn yn cynnwys syniadau am amrywiaeth, lliw croen a hunaniaeth. Mae plant yn dechrau sylwi ar wahaniaethau o oedran ifanc iawn, gan gynnwys gwahaniaethau mewn perthynas â hil:

- Mor gynnar â 3 mis oed gall ymennydd plentyn sylwi ar wahaniaeth hil yn y bobl o'u hamgylch
- Erbyn 2 oed, gall blant ail adrodd stereoteip am hil
- Erbyn 4 oed, gall plant fynegi rhagfarn ar sail hil drwy bryfocio
- Erbyn 8 oed, mae plant yn ymwybodol o'r norm cymdeithasol ac yn gallu mynegi rhagfarn mewn modd mwy cynnil
- Erbyn 12 oed, mae llawer o blant wedi ffurfio gogwydd o ran barn, meddyliau, a phenderfyniadau.

Mae ymarfer gwrth-hiliol mewn gofal plant yn cynorthwyo pob plentyn i::

- Deimlo'n ddiogel, cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- Adeiladu teimlad o hunanwerth a hyder
- Ddatblygu caredigrwydd, empathi a pharch at eraill
- Ddeall a gwerthfawrogi gwahaniaethau
- Adnabod a gweithredu tegwch a chynhwysiant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol o ddileu hiliaeth yng Nghymru erbyn 2030. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, rhaid i bawb yng Nghymru wneud newidiadau i gael gwared ar hiliaeth o'n bywydau a'n cymunedau. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r cynllun hwn yn nodi argymhellion ar gyfer lleoliadau ac ymarferwyr ar gyfer cefnogi gwrth-hiliol yn y sector gofal plant.



Beth yw ymarfer gwrth-hiliol?

Mae bod yn wrth-hiliol yn fwy na "ddim yn bod yn hiliol." Mae'n golygu cymryd camau gweithredol i herio hiliaeth, gwahaniaethu a rhagfarn ym mhob ffurf.

Yn lleoliadau gofal plant, mae hyn yn cynnwys:

- Dathlu amrywiaeth mewn llyfrau, cerddoriaeth, straeon, bwyd, gwisg ac iaith
- Creu amgylchedd lle mae pob plentyn yn perthyn
- Annog plant i siarad am degwch, caredigrwydd a gwahaniaeth
- Sicrhau bod pob teulu yn teimlo'n eu bod yn cael croeso ac yn cael eu gwerthfawrogi
- Darparu hyfforddiant i staff i herio rhagfarn.

Sut gallwch chi helpu eich plentyn i ddeall hil a hiliaeth?

Peidiwch â bod ofn siarad am amrywiaeth a chynhwysiant 'yn rhy gynnar' gyda phlentyn. Mae siarad am amrywiaeth a chynhwysiant yn rheolaidd ac yn gadarnhaol yn gam cyntaf tuag at greu newid cymdeithasol cadarnhaol.

Gallwch gefnogi dysgu a datblygiad eich plentyn drwy:

1. Annog cwestiynau a sgysiau gonest
2. Archwilio llyfrau, rhaglenni teledu neu gerddoriaeth sy'n dangos modelau rôl cadarnhaol ac amrywiol
3. Siarad yn agored ac yn aml
4. Dysgu am degwch, parch a phwysigrwydd dathlu gwahaniaethau.



Syniadau am gefnogi plant yn ôl oedran:

O dan 5 oed:

- Siarad am garedigrwydd, tegwch a derbyn eraill
- Dathlu sut mae pobl yn debyg ac yn wahanol
- Defnyddio llyfrau a straeon i edrych ar y themau uchod.

Plant hyn a rhai yn eu harddegau:

- Gadael iddynt arwain y sgwrs
- Darparu lle diogel iddynt drafod profiadau
- Gwrando heb farnu.

Plant oedran cynradd:

- Defnyddio llyfrau neu fideos i gychwyn trafodaethau
- Gofyn iddynt ofyn cwestiynau a rhannu yr hyn maent wedi ei sylwi.



Amrywiaeth yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae amrywiaeth yn thema drawsbynciol o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn cynnwys cyfleoedd addas ar gyfer dysgu am amrywiaeth, a chynabod a dathlu amrywiaeth o fewn cymdeithas a chymunedau. Mae'r cwricwlwm yn nodi pwysigrwydd arfer cynhwysol o fewn lleoliadau, a ddylai adlewyrchu amrywiaeth, a bod yn ymatebol i brofiadau cymunedau amrywiol.

Gweithio Gyda'n Gilydd

Mae ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn eich cydnabod chi, y rhiant/gofalwr fel athro cyntaf eich plentyn.

Bydd lleoliadau'n croesawu:

- Eich traddodiadau teuluol a'ch dathliadau diwylliannol
- Trafodaethau am hunaniaeth, iaith a threftadaeth eich plentyn
- Adborth am sut i wella cynhwysiant a chynrychiolaeth.

Os hoffech chi wybod mwy am y dull y mae lleoliad eich plentyn yn ei gymryd tuag at amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth, gofynnwch iddynt sut maen nhw'n:

- Dathlu amrywiaeth
- Hyrwyddo tegwch a chyfiawnder
- Cefnogi plant i fod yn hyderus, caredig ac yn gynhwysol.

Mae eich llais yn bwysig. Mae gweithio gyda'n gilydd yn adeiladu Cymru well a thecach i bob plentyn. Gall greu ymdeimlad o berthyn – neu Gynefin – lle mae pob plentyn yn falch o bwy ydyn nhw.



Sut i fod yn 'fodel rôl' gwrth-hiliol:

- Cydnabod bod ganddom i gyd ragfarn, ac ymrwymo i dyfu
- Herio hiliaeth pan rydych yn ei weld
- Parhau i ddysgu am hiliaeth a'i effaith
- Gwrando ar bobl sydd wedi profi hiliaeth
- Siarad am yr hyn rydych wedi ei ddysgu gyda theulu a ffrindiau.

Beth ddylech chi wneud os ydych yn meddwl bod eich plentyn wedi profi hiliaeth neu gael eu bwlio?

- Gwrando heb gynhyrfu a'u cymryd o ddifrif
- Gadael iddynt wybod: nid arnyn nhw mae'r bai
- Diolch iddynt am ddweud wrthoch
- Siarad gyda'r darparwr gofal plant neu'r ysgol a gofyn am y camau nesaf: cefnogi, hyfforddi, neu newidiadau i'r polisi
- Ystyried cefnogaeth broffesiynol (e.e. Cwnsela) os oes angen.

Mae hiliaeth yn anghyfreithlon. Os ydych chi'n credu bod trosedd casineb wedi cymryd lle, adroddwch hyn i'r heddlu drwy ffonio 999 (argyfwng) neu 101.

Ac yn olaf...

Gyda'n gilydd, gallwn helpu i wneud Cymru yn wlad lle mae pob plentyn yn cael eu hamddiffyn, eu galluogi a'u dathlu.

Cefnogaeth bellach ac adnoddau NDNA

- NDNA Cymru – Canllaw Ymarfer Da AM DDIM- Mynd i'r afael â Hiliaeth: www.ndna.org.uk/TacklingRacismWales
- DARPL a CWLWM Creu diwylliant gwrth-hiliaeth mewn lleoliadau: www.rebrand.ly/DARPLCWLWM
- Cylchlythyr CWLWM, Gwanwyn 2022 wedi canolbwyntio ar hiliaeth a hybu cyfartaledd ar sail hil: www.rebrand.ly/CwlwmNewsletter
- Cyngor Llyfrau Cymru rhestr llyfrau ar amrywiaeth: www.rebrand.ly/BooksCouncilsForWalesList
- Adnoddau elusen MIND 'Hiliaeth ac lechyd Meddwl': www.rebrand.ly/MINDRacismResources





National Day Nurseries Association

Taflen ffeithiau

***Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

Caiff ein taflenni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chynghor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar www.ndna.org.uk/factsheets

Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir

NDNA Cymru

3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk